**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**21 Ionawr 2025**

**Rhan 1 – TROSOLWG**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, a wnaed o dan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Bydd y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig sy'n gweithio i ddarparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig rheoleiddiedig.

1.2 Bydd y diwygiad yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i agor cofrestr y gweithlu i weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig ar sail "wirfoddol" neu "ragarweiniol" o fis Ebrill 2025.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r pwerau sy'n galluogi Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025 yn cael eu gwneud o dan adran 80(1)(b) ac 80(2)(b) o Ddeddf 2016. Ceir rhagor o fanylion isod:

Mae adran 80(1)(b) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i GCC gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau; ac mae adran 80(2)(b) yn nodi rhannau ar wahân o'r gofrestr ar gyfer pob disgrifiad o weithiwr gofal cymdeithasol a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (1)(b).

3.2 Mae Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016 yn nodi'r disgrifiad o weithwyr gofal cymdeithasol y mae'n rhaid i GCC gadw cofrestr ar eu cyfer fel y pennir gan Weinidogion Cymru. Bydd angen i'r rhain gael eu diwygio i ganiatáu i GCC alluogi gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig i ymuno â chofrestr y gweithlu o 2025 ymlaen. Bydd y diffiniad yn cynnwys gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig sy'n gweithio i ddarparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.

3.3 Bydd GCC yn gyfrifol am y broses o ddechrau cofrestru gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig drwy ddiwygio Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru a wnaed o dan adrannau 83 (gofynion cofrestru) ac 84 (gofynion cymwysterau) o Ddeddf 2016.

3.4 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w gwneud yn orfodol i gofrestru gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig erbyn 30 Medi 2026.

4.2 Bydd y rheoliadau hyn, sy'n cael eu cynnig fel rhan o Gam II o broses weithredu Deddf 2016, yn caniatáu agor y gofrestr i'r grŵp diweddaraf hwn ar sail "wirfoddol" cyn dyddiad cau arfaethedig o 30 Medi 2026 ar gyfer cofrestru gorfodol.

4.3 Y bwriad yw rhoi digon o amser i reoleiddiwr y gweithlu, GCC, ymgysylltu â chyflogwyr a'r gweithlu a gweithio gyda nhw cyn y dyddiad cau arfaethedig ar gyfer cofrestru gorfodol, sef 30 Medi 2026. Mae hyn yn gyson â'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd i gofrestru gweithwyr gofal cartref yn 2018 a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion yn 2022; a byddai'n caniatáu amser i'r grŵp newydd hwn ddeall y broses a chydymffurfio â'r gofynion a'r cymwysterau priodol sydd eu hangen fel rhan o'r broses gofrestru.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae'r diwygiad hwn yn dilyn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023 a Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos rhwng mis Mai a mis Awst 2023 ar y cynigion ehangach i gynnwys Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig fel gwasanaeth rheoleiddiedig, a'i gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC); a'i gwneud yn ofynnol i weithlu'r gwasanaethau hyn gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

5.3 Daeth 25 o ymatebion i’r ymgynghoriad i law oddi wrth randdeiliaid amrywiol gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, darparwyr gwasanaethau ac unigolion, a mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig y dylai'r gwasanaethau hyn a'r gweithlu hwn gael eu cofrestru â rheoleiddwyr y gwasanaeth a'r gweithlu. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law yn dangos cefnogaeth i'r cynigion hyn.

5.4 Fodd bynnag, cododd yr ymgynghoriad bryderon gan randdeiliaid ynglŷn â'r canlynol:

a. effaith bosibl y gofynion cofrestru ar staff sy'n cael eu cyflogi i wneud sifftiau achlysurol yn y lleoliad preswyl, a'r posibilrwydd na fydd rhai aelodau staff eisiau gwneud sifftiau achlysurol bellach os oes gofyniad iddynt gofrestru ag GCC; a

b. y posibilrwydd y bydd rhai staff o'r farn bod y gofynion o ran cymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus yn rhy feichus.

5.5 Fodd bynnag, fel y gwelsom mewn ymarferion cofrestru blaenorol, nid yw'r mater hwn wedi bod yn un arwyddocaol i'r gweithlu. Mae GCC wedi gweithio gyda nhw i ddeall a chwblhau'r broses gofrestru a bodloni'r gofynion hyfforddiant a datblygiad angenrheidiol.

5.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag GCC i drafod y gofynion o ran cofrestru a chymwysterau ar gyfer gweithwyr achlysurol. Cynhaliodd y rheoleiddiwr ymgynghoriad yn 2023, ac ar ôl dadansoddi'r ymarfer hwnnw, fe wnaeth ymestyn y cyfnod cofrestru i weithiwr gofal cymdeithasol ennill cymhwyster o dair i chwe blynedd. Mae pob gweithiwr yn gallu cofrestru drwy lwybr asesu'r cyflogwr.

5.7 Ni fwriedir cynnal ymgynghoriad ar y diwygiad hwn i'r Rheoliadau, gan mai cam gweinyddol yn unig yw hwn i gyfarwyddo GCC i gynnwys y gweithwyr hyn yng nghofrestr y gweithlu.

5.8 Roedd Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig a oedd yn cael eu rheoleiddio am y tro cyntaf i gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

5.9 Bydd y diwygiad hwn yn darparu cyfnod rhagarweiniol o 18 mis o Ebrill 2025 ymlaen i'r tua 60 o weithwyr presennol yn y pedwar Gwasanaeth Preswyl Ysgol Arbennig yng Nghymru i ymgysylltu ag GCC i ddeall a chwblhau'r broses hon cyn cyflwyno cofrestru gorfodol ar gyfer pob gweithiwr newydd o 30 Medi 2026 ymlaen.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Y cefndir

Man cychwyn cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol oedd Deddf Safonau Gofal 2000 (Deddf 2000), a gyflwynodd gofrestriad proffesiynol gorfodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr cartrefi gofal preswyl i oedolion a rheolwyr a gweithwyr cartrefi gofal preswyl i blant â rheoleiddiwr y gweithlu ar y pryd, Cyngor Gofal Cymru. Yn 2013, deddfodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno cofrestriad gorfodol ar gyfer rheolwyr gwasanaethau cymorth gofal cartref, er mwyn sicrhau bod y rheolwyr hyn yn cael eu trin yn yr un modd â rheolwyr eraill yn y sector.

Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015, a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys ailenwi ac ymestyn cylch gwaith rheoleiddiwr y gweithlu i Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Yn ystod taith Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015, rhoddwyd ystyriaeth i gofrestru a phroffesiynoli grwpiau eraill yn y gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn meithrin proffil y sector a gwella safonau ac ansawdd gofal. Yn sgil y drafodaeth hon, fe wnaeth Llywodraeth Cymru sawl datganiad yn nodi mai'r grwpiau nesaf o'r gweithlu i gael eu cofrestru fyddai gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gwasanaethau cartrefi gofal rheoleiddiedig sy'n cael eu darparu yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion. Fodd bynnag, rhoddwyd mwy o hyblygrwydd i'r ddeddfwriaeth ganiatáu i gategorïau eraill o'r gweithlu gael eu cynnwys yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr mewn gwasanaethau a elwir yn Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig.

Yn ystod mis Mai a mis Awst 2023, cynhaliwyd ymgynghoriad a thrafodaethau ynghylch gwneud Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig yn wasanaeth rheoleiddiedig o dan arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a'i gwneud yn ofynnol i'r gweithlu yn y gwasanaethau hyn gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC). Cafodd Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2023 eu drafftio i ddiffinio'r gwasanaeth rheoleiddiedig newydd a diwygio'r rheoliadau o sylwedd yn ymwneud â gwasanaethau y mae angen iddynt gofrestru ag AGC. Cymeradwywyd y Rheoliadau hyn gan y Senedd ar 5 Rhagfyr 2023 a daethant i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

Drafftiwyd rhagor o reoliadau o dan y teitl Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024, sy'n gosod dyletswydd ar ddarparwyr y gwasanaethau hyn sydd wedi dechrau cael eu rheoleiddio i gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC fel gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau yn pennu gofynion staffio, sy’n cynnwys gofynion cyffredinol yn ymwneud â defnyddio niferoedd digonol o staff a gofynion penodol yn ymwneud ag addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Yn ogystal â gweithwyr, mae'r gofynion hyn yn berthnasol i wirfoddolwyr ac i bersonau eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth, gan gynnwys staff asiantaeth, sy'n cael eu cyflogi i

ddarparu gofal a chymorth i unigolion. Rhaid i'r personau hyn fod wedi cofrestru ag GCC o fewn chwe mis i ddechrau eu cyflogaeth. Rhaid i bersonau sy'n cael eu cyflogi i reoli'r gwasanaeth rheoleiddiedig fod wedi eu cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu hefyd. Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron y Senedd ddechrau mis Mawrth 2024 a daethant i rym ddiwedd y mis hwnnw.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn archwilio'r cynnig i newid y Rheoliadau sy'n rheoli'r broses o gadw cofrestr y gweithlu a chaniatáu i reoleiddiwr y gweithlu agor y gofrestr ar sail "wirfoddol" i weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.

*Y Rheoliadau*

Byddai Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2025 yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, er mwyn caniatáu agor cofrestr y gweithlu i weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig sy'n gweithio i ddarparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig rheoleiddiedig.

## OPSIYNAU A GAFODD EU HYSTYRIED

Dim ond dau opsiwn sydd ar gael i ni yn yr achos hwn, sef ddeddfu'r cynigion hyn o dan Ddeddf 2016 neu beidio â'u deddfu. Y ddau opsiwn yw:

| | |
|---|---|
| **Opsiwn un:** | Gwneud dim – cadw'r status quo; |
| **Opsiwn dau:** | Agor cofrestr y gweithlu fel bod gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn gallu cofrestru ar sail wirfoddol. |

**Opsiwn un:** Gwneud dim – cadw'r status quo.

### Y gweithlu/cyflogwyr

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru fel gwasanaeth rheoleiddiedig ag Arolygiaeth Gofal Cymru erbyn 1 Gorffennaf 2024. Bydd Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau i gael rheolwr a gweithlu sydd wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, GCC.

Yn y sefyllfa hon, nid oes unrhyw ofyniad ar unwaith i weithwyr gwasanaeth preswyl ysgolion arbennig yng Nghymru gofrestru ag GCC a gallant barhau i weithio mewn lleoliadau gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig neu gallant gofrestru'n "wirfoddol" â’r rheoleiddiwr. Fodd bynnag, yn y pen draw, bydd angen i'w cyflogwyr sicrhau bod eu staff wedi'u cofrestru ar ôl 30 Medi 2026 er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Mae Rheoliadau 2024, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr y gwasanaethau hyn o dan adran 31(2)(f) gyflogi neu gontractio dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC. Fodd bynnag, mae adran 31(9)(a) yn darparu bod yn rhaid i'r gweithlu fod wedi cofrestru ag GCC erbyn 30 Medi 2026, ac ar

ôl hynny, os nad yw'r aelodau staff hyn wedi'u cofrestru, ni fyddent yn gallu darparu gofal a chymorth i ddisgyblion mewn angen yn yr ysgolion hyn. Gallai hyn achosi problemau sylweddol yn y dyfodol os nad yw cyflogwyr a rheoleiddiwr y gweithlu yn paratoi'r gweithlu am yr angen i gofrestru, a'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud er mwyn cofrestru.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Ni fydd cynnwys yr angen i arolygu pedwar Gwasanaeth Preswyl Ysgol Arbennig ledled Cymru yn cael llawer o effaith ar reoleiddiwr y gwasanaeth na'i brosesau arolygu a'i waith cynllunio. Fel rhan o'r broses arolygu, mae AGC eisoes yn gwirio bod staff mewn gwasanaethau rheoleiddiedig yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, bydd AGC yn cyflwyno cyfnod rhagarweiniol i wasanaethau a'u staff allu cofrestru ag GCC, er mwyn bod yn deg a chymesur. Bydd AGC yn caniatáu amser i staff gofrestru erbyn y dyddiad cau gorfodol ar gyfer cofrestru, sef 30 Medi 2026. Ar ôl y dyddiad hwn, gallai cyflogwyr sydd â staff nad ydynt wedi'u cofrestru ag GCC wynebu sancsiynau gan AGC nes eu bod yn cydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol.

Byddem yn disgwyl i AGC weithio gyda'r arolygiaeth addysg, Estyn, er mwyn trefnu i gydlynu eu harolygiadau a lleihau'r effaith ar wasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Er y gallai hyn arwain at yr angen am adnoddau gweinyddol ychwanegol i gynllunio a chydlynu arolygiadau yn y dyfodol, mae'n anodd cyfrifo'r costau gwirioneddol hyn, ond nid ydym yn credu y byddant yn sylweddol.

**Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)**

O dan opsiwn un, ni fyddai'r rheoleiddiwr yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol, gan nad oes unrhyw newidiadau i gofrestr y gweithlu yn cael eu cynnig ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig gofrestru ag GCC tan 30 Medi 2026.

**Llywodraeth Cymru**

Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol o dan y senario hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r rhan fwyaf o gyllid GCC er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio drwy becyn cymorth grant blynyddol y rheoleiddiwr, sy'n cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn er mwyn bodloni amrywiaeth o swyddogaethau rheoleiddio ac ychwanegol, gan gynnwys cofrestru'r gweithlu.

***Manteision opsiwn un:*** *Gwneud dim – cadw'r status quo.*

Mantais fwyaf opsiwn un, er ei bod yn fantais tymor byr, yw'r ffaith na fydd y gweithlu, cyflogwyr na rheoleiddiwr y gweithlu yn gorfod talu unrhyw gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chofrestru.

Fodd bynnag, gan fod y ddeddfwriaeth gysylltiedig (Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024) yn cynnwys gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC, bydd goblygiadau cost yn codi yn yr hirdymor. Canlyniad anfwriadol

y ddeddfwriaeth hon, heb y diwygiad arfaethedig hwn, yw na fyddai'r gweithlu presennol yn gallu parhau i weithio yn y sector ar ôl 30 Medi 2026, gan na fyddant wedi'u cofrestru ag GCC. Byddai hyn yn achosi panig a straen sylweddol i'r gweithlu a'u cyflogwyr pe bai'n rhaid i bob un o'r 60 o weithwyr gofrestru erbyn y dyddiad cau sydd wedi'i nodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024, sef 30 Medi 2026.

***Risgiau sy'n gysylltiedig ag opsiwn un: Gwneud dim – cadw'r status quo.***

Mae'r brif risg sy'n gysylltiedig ag opsiwn un yn ymwneud â'r cynnig i gyflwyno cofrestru gorfodol ym mis Medi 2026. Er bod modd dadlau na fydd cofrestriad gwirfoddol 60 o weithwyr ychwanegol yn ofyniad sylweddol, os bydd pob un o'r gweithwyr hyn yn aros tan y dyddiad cau ar 30 Medi 2026 cyn cofrestru, gallent fynd ar goll yng nghanol y cylch cofrestru neu adnewyddu cofrestriad ar gyfer y 61,000 o weithwyr eraill sydd angen cofrestru ag GCC. Gallai hynny achosi straen gormodol i'r rhai sy'n cofrestru (a'u cyflogwyr) ac i staff cofrestru GCC ac arwain at y perygl o wallau wrth gofnodi data. Gallai hynny gael goblygiadau difrifol i'r rheoleiddiwr ac i weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Hefyd, gallai arwain at ddryswch ynglŷn â statws gweithwyr nad ydynt wedi'u hychwanegu at y gofrestr eto, gan gynnwys ansicrwydd ynglŷn â'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau os nad ydynt wedi'u cofrestru. Yn yr hirdymor, mae'n bosibl y byddai angen rhagor o fuddsoddiad i gywiro neu liniaru'r niwed posibl a allai fod wedi deillio o unrhyw wallau neu hepgoriadau.

Mae'r risg hon wedi cael ei lliniaru'n rhannol oherwydd, cyn cofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, cafodd GCC adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynllunio, paratoi a rheoli'r broses ymgeisio ar gyfer tua 40,000 o weithwyr. Roedd hyn yn cynnwys recriwtio mwy o staff, gofod swyddfa a chyfarpar er mwyn helpu i brosesu'r nifer fawr o geisiadau cofrestru ochr yn ochr ag adnewyddu cofrestriad y 11,000 o weithwyr presennol.

***Costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn un: Gwneud dim – cadw'r status quo.***

**Y gweithlu/cyflogwyr**

Os cedwir y status quo, bydd yn parhau'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig gofrestru ag AGC a dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC y caniateir i ddarparwr gwasanaeth eu cyflogi. Fodd bynnag, ni fydd cofrestr wedi'i hagor gydag GCC y gallant gofrestru â hi. Heb weithredu diwygiadau i reoliadau fel y cynigir yn opsiwn 2, nid oes gofyniad ar GCC i'w cynnwys ar gofrestr y gweithlu nac i agor y gofrestr fel y gellir eu cofrestru. Byddai hyn yn golygu na fyddai cyflogwyr yn gallu cadw eu gweithlu presennol a chydymffurfio â Rhan 8, rheoliad 31(2)(f) a (g) o Reoliadau 2024, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2024. Mae hyn yn gosod gofyniad ar gyflogwyr i gyflogi neu gontractio dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC, sy'n ofyniad ar ôl 30 Medi 2026. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r gweithlu presennol yn gallu gweithio yn y gwasanaethau hyn ar ôl y dyddiad hwnnw, gan na fyddent wedi'u cofrestru; a byddai eu cyflogwyr yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith a byddent yn cael sancsiynau neu gosbau gan reoleiddiwr y gwasanaeth, AGC.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Ni fydd unrhyw oblygiadau cost i AGC o ganlyniad i weithredu'r cynigion i gofrestru'r gweithlu, ac ni fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar arolygiadau AGC o'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol agos. Mae AGC wedi cytuno i roi amser i wasanaethau ymsefydlu a pharatoi ar gyfer cael eu harolygu, a chofrestru eu gweithlu ag GCC. Er bod ein cynigion yn dilyn adran 31(2)(f) o Reoliadau 2024, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2024 ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi'u cofrestru ag GCC, rydym wedi cytuno i ddefnyddio dull gweithredu cymesur lle bydd y gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar amser i fodloni'r gofynion penodol i gofrestru eu gwasanaethau ac yna eu gweithlu â rheoleiddwyr y gwasanaeth a'r gweithlu. Rydym yn disgwyl y bydd AGC yn cynnwys gwiriad yn eu harolygiadau o fis Hydref 2026 ymlaen i sicrhau bod gan wasanaethau preswyl ysgolion arbennig gofnodion sy'n dangos bod eu staff wedi'u cofrestru ag GCC.

Er y gallai hyn arwain at yr angen am rai adnoddau gweinyddol ychwanegol i gynllunio a chydlynu arolygiadau yn y dyfodol, mae'n anodd cyfrifo'r costau hyn. Ar sail ffigurau 2023-24, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol fydd £15,000, sy'n cyfateb i 0.25 arolygydd ychwanegol. Bydd modd defnyddio'r cyllidebau presennol i dalu'r gost hon, a bydd yn gost gylchol ar ôl ei chyflwyno.

**Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)**

O dan opsiwn un, ni fyddai'r rheoleiddiwr yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol, gan nad oes unrhyw newidiadau i gofrestr y gweithlu yn cael eu cynnig ar hyn o bryd o 1 Ebrill 2025.

**Llywodraeth Cymru**

Ni fydd y senario hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol ar unwaith. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cyllid a ddarperir i GCC ar gyfer cofrestru’r gweithwyr hyn a’i ddyletswyddau rheoleiddio drwy becyn cymorth grant blynyddol y rheoleiddiwr, sy'n cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn er mwyn bodloni amrywiaeth o swyddogaethau rheoleiddio ac ychwanegol, gan gynnwys cofrestru'r gweithlu.

**Opsiwn dau:** Agor cofrestr y gweithlu fel bod gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn gallu cofrestru ar sail wirfoddol.

**Y gweithlu/cyflogwyr**

Nod y cynnig yw agor y gofrestr o 1 Ebrill 2025 ymlaen er mwyn rhoi digon o amser i'r gweithlu presennol a'u cyflogwyr ymgysylltu ag GCC er mwyn deall proses a manteision cofrestru'r gweithlu. Fel sy'n wir am ymarferion cofrestru blaenorol, mae'n debygol y bydd gan lawer o weithwyr y sector hwn y cymwysterau gofynnol, ac y bydd y broses gofrestru yn syml. Ar gyfer y gweddill, bydd y rheoleiddiwr yn darparu llwybr arall – h.y. asesiad gan y cyflogwr – er mwyn iddynt gofrestru cyn cyflwyno cofrestru gorfodol ar 30 Medi 2026. Bydd hyn yn caniatáu i gyflogwyr gadarnhau eu bod yn hyderus bod gan y gweithwyr y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu gwaith gofal a

chymorth; ond bydd yn golygu bod angen i'r gweithwyr gwblhau un o’r cymwysterau a restrir yn y fframwaith cymwysterau, a hynny o fewn tair blynedd i gofrestru.

Bydd angen i weithwyr neu gyflogwyr dalu ffi gofrestru flynyddol o £30, a bydd angen i weithwyr ailgofrestru ar ôl 3 blynedd a chadarnhau eu bod wedi ennill y cymwysterau angenrheidiol ac wedi bodloni'r gofynion dysgu proffesiynol parhaus.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Nod y cynnig yw cyfarwyddo Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i agor rhan o gofrestr y gweithlu er mwyn cynnwys gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn y rhestr o weithwyr gofal cymdeithasol y mae’n rhaid iddynt gofrestru â'r rheoleiddiwr. Bydd y gofrestr yn cael ei hagor cyn cyflwyno cofrestru gorfodol ar 30 Medi 2026, gan ddarparu cyfnod rhagarweiniol o 18 mis i weithwyr gofrestru. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oblygiadau cost ychwanegol i AGC, sydd wedi cytuno i weithio gyda'r gwasanaethau hyn er mwyn eu helpu i fodloni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2016.

Mae'r cynigion yn dilyn y broses o gyflwyno Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023"), a oedd yn gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i gofrestru ag AGC fel gwasanaeth rheoleiddiedig erbyn 1 Gorffennaf 2024; a Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024"), a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2024 ac sy’n gosod gofyniad ar gyflogwyr i gyflogi dim ond gweithwyr sydd wedi cofrestru ag GCC ar ôl 30 Medi 2026. Ni fydd hyn yn creu unrhyw gostau ychwanegol eraill i AGC, gan fod ei phrosesau arolygu yn cynnwys gwirio bod gweithlu gwasanaeth yn meddu ar yr hyfforddiant a'r sgiliau priodol.

Mae AGC wedi cytuno i ddarparu eithriad i'r rhan hon o'i harolygiadau cychwynnol o wasanaethau preswyl ysgolion arbennig er mwyn caniatáu i'r gweithlu ddechrau'r broses gofrestru. Bydd AGC yn ystyried y mater o gofrestru'r gweithlu fel rhan o'i harolygiadau o fis Hydref 2026, ond bydd angen iddi fodloni ei hun bod cyflogwyr yn gallu cyflwyno cynllun clir sy'n dangos eu bod yn gweithio tuag at y nod hwn.

**Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)**

Mae GCC yn gyfrifol am gynnal cofrestr y gweithlu, a byddai'n gyfrifol am annog y rhan hon o'r gweithlu i gofrestru. Bydd y broses o weithredu'r rheoliadau newydd hyn yn sicrhau y bydd gwasanaethau yn cydymffurfio ag adran 31(2)(f) o Reoliadau 2023, gan eu bod yn cynnwys gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn y rhestr o weithwyr gofal cymdeithasol y mae’n rhaid iddynt gofrestru ag GCC. Bydd hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n gweithio i ddarparwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig rheoleiddiedig yng Nghymru gofrestru ar sail "wirfoddol" cyn y dyddiad cau gorfodol ar 30 Medi 2026. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen cofrestru'r holl weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig o fewn chwe mis i ddechrau eu cyflogaeth neu eu cymryd ymlaen dan gontract.

Drwy agor y gofrestr ar gyfer cyfnod cofrestru "gwirfoddol," byddwn yn caniatáu i'r gweithlu ymgysylltu ag GCC er mwyn deall y broses a'r cymwysterau sydd eu hangen i

gofrestru ac ymrwymo i'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd angen i'r un sydd wedi cofrestru neu ei gyflogwr dalu ffi gofrestru flynyddol.

Yn 2018, darparodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad sylweddol i GCC ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gofrestr a rheoleiddio cynnydd sylweddol mewn gweithwyr gofal cymdeithasol ar gofrestr y gweithlu, gan gynnwys costau staffio uniongyrchol sy'n deillio o ofynion rheoli'r broses gofrestru; goruchwylio nifer cynyddol o brosesau ymddygiad ac addasrwydd i ymarfer; a chostau anuniongyrchol megis ar gyfer llogi lleoliadau ar gyfer pwyllgorau ymddygiad, a threuliau pwyllgorau ymddygiad. Mae'r broses gofrestru wedi'i hen sefydlu eisoes ac mae buddsoddiad sylweddol wedi'i ddarparu i reoleiddiwr y gweithlu i helpu i reoli'r gwaith o weinyddu'r broses flynyddol hon.  Ni ddisgwylir y bydd angen costau pellach wrth rag-weld y newidiadau arfaethedig i gofrestr y gweithlu, gan fod nifer y gweithwyr y mae angen iddynt gofrestru yn fach – h.y. tua 60 o bobl – a byddant yn cael eu cynnwys yn y cylch parhaus o gofrestru ac o adnewyddu'r cofrestriad.

Mae'r broses gofrestru wedi'i hen sefydlu eisoes ac mae buddsoddiad sylweddol wedi'i ddarparu i reoleiddiwr y gweithlu i helpu i reoli'r gwaith o weinyddu'r broses flynyddol hon.  Amcangyfrifir bod 60 o weithwyr yn y pedwar Gwasanaeth Preswyl Ysgolion Arbennig y gwyddys amdanynt yng Nghymru ac nid ydym yn disgwyl i lawer o weithwyr gofrestru ar unwaith ag GCC cyn y cyfnod cofrestru gorfodol, sef 30 Medi 2026.  Ar sail profiad o ymarferion cofrestru blaenorol, gallwn ddisgwyl gweld 20% (12) o'r gweithlu wedi cofrestru cyn diwedd 2025 a'r gweddill yn y cyfnod cyn y dyddiad cau gorfodol. Gan fod cofrestru'r gweithlu yn broses barhaus, rydym yn disgwyl i'r rheoleiddiwr amsugno a phrosesu cofrestriad y nifer bychan hwn o geisiadau yn hawdd.  Mae gan reoleiddiwr y gweithlu weithdrefnau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr a gweithwyr cyn cofrestru er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer cwblhau'r broses gofrestru.  Mae'n anodd mesur y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r gweithlu bychan hwn i'w helpu i ddeall y broses gofrestru a'i manteision ond gan fod hyn wedi'i gyfyngu i nifer fach o gyflogwyr a staff, ni fydd y costau hyn yn rhai sylweddol i'r rheoleiddiwr.

**Llywodraeth Cymru**

Ni fydd unrhyw effeithiau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru o dan y senario hwn.

***Costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn dau:*** *Agor cofrestr y gweithlu fel bod gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn gallu cofrestru ar sail wirfoddol.*

**Y gweithlu/cyflogwyr**

Pan fydd gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn cael eu cofrestru o 1 Ebrill 2025 ymlaen, a phan fydd pob gweithiwr newydd yn cofrestru ar ôl mis Medi 2026, byddant yn perthyn i'r categori gweithwyr gofal cymdeithasol ac yn gorfod talu ffi gofrestru flynyddol o £30. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn cyfateb i gyfanswm cost i'r gweithlu, ac incwm i GCC, o hyd at £1,800 (h.y. 60 o weithwyr x £30 fesul gweithiwr). Mae GCC wedi cadarnhau y bydd nifer o opsiynau talu ar gael i'r rhai sy'n cofrestru er mwyn helpu i ledaenu cost y ffi gofrestru, gan gynnwys debydau uniongyrchol ar gyfer un taliad neu randaliadau misol yn ystod y cyfnod cofrestru blynyddol priodol.

Yn yr un modd â gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, mae pobl sy'n cofrestru am y tro cyntaf yn gallu gwneud cais i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi i adennill cyfran o'r ffi hon fel didyniad treth[1]. Mae'r canllawiau a ddarperir gan wefan "Gov.UK" Llywodraeth y DU yn nodi bod unigolyn yn gallu hawlio rhyddhad treth ar ffioedd neu danysgrifiadau sy'n cael eu talu i sefydliadau proffesiynol cymeradwy os ydynt yn ymwneud â'i swydd. Fodd bynnag, ni fyddai unigolyn yn gallu hawlio ffioedd neu danysgrifiadau nad yw wedi'u talu drosto ei hun (e.e. os yw cyflogwr wedi eu talu). Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith ymylol ar sylfaen dreth Cymru a phwerau codi trethi newydd Llywodraeth Cymru, ond o gofio bod cofrestru gwirfoddol i'w gyflwyno'n raddol dros flwyddyn a hanner, rydym yn rhag-weld y bydd yr effaith hon bron yn negyddol.

Yn ogystal â'r ffi gofrestru, mae yna gost gysylltiedig yn ymwneud â'r amser sydd ei angen i gwblhau'r broses gofrestru. Mae'n anodd pennu i ba raddau y mae'r gost hon yn debygol o gael ei hysgwyddo gan weithwyr unigol neu eu cyflogwyr, ac os yw'n cael ei hysgwyddo gan weithwyr unigol, mae'n mynd yn fwyfwy anodd mesur y gost gan y bydd yn dibynnu ar eu sgiliau technolegol. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rhagdybir bod y ffi yn gost i'r gweithlu, ond rhagdybir hefyd y bydd y gwaith cofrestru yn cael ei wneud yn ystod oriau gwaith. Ar y sail hon, mae cost wedi'i hamcangyfrif ar sail y baich y mae cyflogwyr yn ei hysgwyddo wedi'i nodi isod.

*Cost Cofrestru*

Mae'n bosibl y bydd cost ariannol i gyflogwyr, a allai dalu'r ffi gofrestru ar ran eu staff naill ai fel cymhelliad i ymuno â'u sefydliad neu i aros gyda'u sefydliad. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw wybodaeth am ba mor gyffredin yw'r arfer hwn. Nid yw rheoleiddiwr y gweithlu yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am faint o daliadau a wneir gan weithwyr a faint a wneir gan gyflogwyr oherwydd yr amrywiaeth o ddulliau talu a ddefnyddir. Felly, y cwbl rydym wedi'i wneud yw nodi y gallai'r arfer hwn ddigwydd, gan y byddai unrhyw ragdybiaeth yn arwain at y perygl o gyfrif costau posibl ddwywaith.

*Cost i Gwblhau'r Broses Gofrestru*

Ar sail amcangyfrif y byddai'n cymryd tua dwy awr i gwblhau'r broses gofrestru, a chan ddefnyddio cyflog byw cenedlaethol amcanestynedig y Comisiwn Cyflogau Isel ar gyfer pobl 25 oed a throsodd, sef £11.44 yr awr yn 2024, fel llinell sylfaen (ynghyd â chostau ychwanegol o £3.78 ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol, pensiynau ac ati), gallwn gyfrifo y byddai'r gost i gwblhau un cofrestriad oddeutu £30.43 (£11.44 + £3.78 x 2) fesul gweithiwr. Mae hyn yn rhagdybio bod y rhan fwyaf o weithwyr yn debygol o dderbyn yr isafswm cyflog ar gyfer pobl dros 25 oed[2]. Felly, pe bai cyflogwyr yn gyfrifol am dalu holl gost cwblhau'r broses gofrestru ar gyfer y gweithlu cyfan, byddai'n costio £1,826 y flwyddyn iddynt.

---

[1] Mae canllawiau ar yr hyn y gellir ei hawlio'n ôl ar gael yn https://www.gov.uk/tax-relief-for-employees

[2] Nid oes data cywir ar gael ar oedran cyfartalog y gweithlu, felly rydym yn dibynnu ar ddata tebyg sy'n deillio o dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer rhannau eraill o'r gweithlu sy'n gwneud gwaith tebyg h.y. gweithwyr gofal preswyl i blant – lle mae'r oedran cyfartalog yn 38 oed – gweler taflen ffeithiau Gofal Cymdeithasol Cymru ar weithwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr (1 Ebrill 2018) https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Taflenni-Ffeithiau-GGPB.pdf

Gallai costau ychwanegol gynnwys amser i reolwyr ddysgu am y gofynion cadw cofnodion ar gyfer y broses gofrestru, a rheoli’r gofynion hynny. Mae'n fwy anodd mesur hyn gan y bydd yn amrywio ar sail gwybodaeth a phrofiad blaenorol y rheolwr, nifer y staff y mae'n eu rheoli, a'i lefel cyflog. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru unrhyw elfen o'r costau hyn, bydd GCC yn gyfrifol am sicrhau bod y prosesau cofrestru a chadw cofnodion mor hygyrch â phosibl. Mae GCC wedi cadarnhau y bydd yn defnyddio proses ymgysylltu debyg o friffiau ac ymweliadau er mwyn helpu cyflogwyr a gweithwyr i ddeall y broses. Hefyd, bydd hyn yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o'r broses a gwblhawyd wrth gofrestru gweithwyr gofal cartref er mwyn helpu i wneud y broses hon mor hawdd â phosibl.

*Costau Hyfforddi*

Mae'r gost o fodloni'r gofynion cymwysterau yn gysylltiedig â'r broses o gofrestru staff. Lansiwyd cyfres newydd o gymwysterau ym mis Medi 2019, ac mae GCC wedi penderfynu mai'r gofynion cymwysterau sylfaenol fydd lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, QCF neu NVQ) neu gymhwyster cyfatebol. Mae GCC yn amcangyfrif y bydd yn cymryd 460 awr i gwblhau'r cymhwyster. Rhaid i weithiwr newydd fodloni'r gofyniad cymwysterau o fewn chwe mis i ddechrau gweithio i'r gwasanaeth. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos y byddai angen i weithiwr gwblhau 12.7 awr o astudio bob wythnos ar gyfartaledd er mwyn bodloni'r gofyniad hwn.

Mae'n bosibl y bydd disgwyl i gyflogwyr dalu gweithwyr am eu hamser yn cwblhau'r hyfforddiant (amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £7,001 ar sail yr isafswm cyflog cenedlaethol presennol (2024) sef £15.22), yn ogystal â thalu cost yr hyfforddiant. Mae rheoleiddiwr y gweithlu, GCC, yn amcangyfrif nad yw 50% o'r gweithlu gofal cymdeithasol presennol wedi ennill y cymwysterau angenrheidiol i gofrestru. Byddai'n rhaid i'r sector wario £210,036 mewn costau cyflog yn unig er mwyn sicrhau bod y gyfran hon o'r gweithlu y cymwysterau gofynnol[3]. Hefyd, mae cyflogwyr yn debygol o wynebu costau eraill i gyflenwi ar gyfer yr aelod o staff sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant, ac mae'n anodd mesur y gost hon gan fod asiantaethau ledled Cymru yn codi ffioedd gwahanol am ddarparu staff, felly nid oes modd darparu cost gyfartalog.

Fel yn achos cofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, ochr yn ochr â'r llwybr cymwysterau, bydd GCC yn darparu ar gyfer asesiad gan gyflogwyr – lle mae gweithwyr yn gallu cofrestru ar sail cymeradwyaeth eu rheolwyr bod ganddynt y sgiliau a'r cymwyseddau cywir – ond bydd yn rhaid iddynt gwblhau un o'r cymwysterau a restrir yn y fframwaith cymwysterau cyn y daw’n bryd iddynt adnewyddu eu cofrestriad, neu'n dibynnu ar eu patrwm gwaith, o fewn 6 mlynedd. Byddai hyn yn helpu i leddfu'r pwysau uniongyrchol ar gyflogwyr yn ymwneud â chostau hyfforddiant i sicrhau bod staff wedi'u cofrestru erbyn y dyddiad cau gorfodol, ond bydd costau eraill yn codi yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus staff yn y dyfodol. Mae'n anodd mesur yr arbedion i gyflogwyr sy'n deillio o'r opsiynau hyn.

Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn deillio o'r rheoliad hwn yn unig. Hyd yn oed heb gofrestru gorfodol, mae'n rhesymol disgwyl y bydd yna gost i gyflogwyr am hyfforddi staff a sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i wneud y gwaith. Fodd bynnag, nid oes

[3] Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y Cyflog Byw Cenedlaethol presennol a'r costau ategol o £15.22 x 460 awr i gwblhau cymhwyster Lefel 2 x 30 o weithwyr (50% o'r 60 o weithwyr yn y sector hwn) sydd angen ennill y cymhwyster hwn.

data ar gael ar y gost bresennol (cyn cofrestru) i gyflogwyr i hyfforddi staff. Yn gyffredinol, mae dull mwy cyson o ddarparu hyfforddiant ar draws y sector yn debygol o arwain at fwy o werth am arian i gyflogwyr. Gallai hyd yn oed arwain at rai arbedion cost, er enghraifft pan fydd gweithwyr yn symud o un cyflogwr i'r llall.

**Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)**

Mae GCC yn amcangyfrif y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gofrestr a rheoleiddio gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn wrth i fwy o'r gweithlu gofrestru, ac y byddai'r cynnydd yn codi o £1.130m yn 2018-2019 i £2.995m yn 2021-2022. Gan nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynyddu rhagor ar y gofrestr y gweithlu, gallwn ddisgwyl i'r costau gynyddu'n gynyddrannol dros y blynyddoedd nesaf.

Yn 2018, y tu allan i'w chyllid cymorth grant, darparodd Llywodraeth Cymru £119,500 yn ychwanegol i reoleiddiwr y gweithlu er mwyn cefnogi'r gwaith paratoi (h.y. cymorth staffio, TG a chyfleusterau swyddfa ychwanegol) ar gyfer cofrestru a rheoleiddio gweithwyr gofal cartref. Mae GCC wedi cadarnhau na fydd costau uniongyrchol cofrestru'r gweithlu gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig presennol yn cael effaith sylweddol ar ei dîm cofrestru, a bod yr adnoddau presennol yn ddigonol i wneud y gwaith.

Mae cofrestru ac ailgofrestru yn broses barhaus sy'n gallu arwain at ofynion amrywiol ar y tîm cofrestru wrth iddo weinyddu'r ceisiadau. Mae GCC wedi cwblhau dau ymarfer mawr sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion sydd wedi cael eu cofrestru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae dros 50,000 o weithwyr newydd wedi cael eu cofrestru, ac mae'r tîm wedi llwyddo i reoli a gweinyddu'r ceisiadau hyn yn effeithiol ac yn amserol.

Byddai rhai o'r costau gweinyddol yn cael eu gwrthbwyso drwy gasglu ffioedd cofrestru. Erbyn hyn, mae dros 60,000 o weithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol ar gofrestr y gweithlu, sydd wedi creu incwm ychwanegol i GCC ochr yn ochr â'r cymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Yn 2017-18, pan oedd ychydig dros 11,000 o weithwyr ar y gofrestr, creodd hyn gyfanswm o £272,000 o incwm i'r rheoleiddiwr; erbyn 2022-23 roedd hyn wedi codi i ychydig dros £2 filiwn yn sgil cofrestru dros 49,000 o weithwyr ychwanegol. Mae'r arian hwn yn cael ei ailfuddsoddi yng ngwaith GCC o reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

*Addasrwydd i Ymarfer*

Ar ochr reoleiddiol ei waith, mae GCC wedi amcangyfrif bod nifer yr ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer yn cynyddu wrth i fwy o grwpiau o weithwyr gael eu hychwanegu at y gofrestr. Mae GCC wedi amcangyfrif y gost ar gyfer y cynnydd mewn ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer ar sail nifer y gweithwyr sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd (tua 62,000 o weithwyr).

Ar hyn o bryd, mae 109 o achosion y flwyddyn yn mynd ymlaen i wrandawiad Addasrwydd i Ymarfer llawn ar gost o £16,000 yr achos (cyfanswm o £1.74m y flwyddyn). Roedd y ffigurau hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil ychwanegu dros

49,000 o weithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion erbyn 2022. Ar gyfer cofrestr y gweithlu Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig, nid ydym yn disgwyl y bydd cynnydd ar unwaith yn nifer yr achosion o Addasrwydd i Ymarfer o fewn y cyfnod cofrestru. Bydd y rheoleiddiwr yn gweithio gyda gweithwyr i helpu i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol i gofrestru, a bydd yn darparu dull cymesur i helpu'r gweithwyr newydd hyn i ddeall y gofynion cofrestru. Mae hyn yn cynnwys rhoi digon o amser iddynt ennill y cymwysterau gofynnol os nad oes ganddynt y cymwysterau eisoes.

Nid ydym yn disgwyl cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion sy'n cael eu dwyn yn erbyn y gweithwyr hyn, ac wrth gymharu'r sefyllfa â gweddill y gweithlu, gan mai dim ond 60 o weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig sy'n cael eu hychwanegu at y gofrestr, rydym yn disgwyl y bydd tua 2 achos ychwanegol bob blwyddyn. Er ei bod yn anodd amcangyfrif yn gywir y niferoedd posibl, pe baem yn defnyddio'r amcangyfrif hwn fel man cychwyn, byddai'n golygu bod costau rheoleiddio cyffredinol y rheoleiddiwr yn cynyddu £32,000 y flwyddyn.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar reoleiddiwr y gwasanaeth mewn perthynas â rheoleiddio'r pedwar Gwasanaeth Preswyl Ysgol Arbennig yng Nghymru, gan fod modd eu cynnwys yn y rhaglen arolygu heb lawer o effaith ychwanegol. Mae AGC wedi cadarnhau y bydd yn defnyddio dull cymesur o arolygu'r gwasanaethau hyn yn ystod blwyddyn gyntaf eu cofrestriad er mwyn rhoi amser iddynt weithio gyda rheoleiddiwr y gwasanaeth i roi mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn darparu'r ansawdd gofal a ddisgwylir gan y gwasanaethau hyn. Mae AGC yn ymwybodol bod angen i'r gweithlu gofrestru erbyn 30 Medi 2026, ac mae wedi cynnwys y gofyniad hwn yn ei chynlluniau arolygu ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o adnoddau gweinyddol er mwyn cynllunio a chydlynu arolygiadau yn y dyfodol rhwng arolygwyr AGC a'u cymheiriaid yn Estyn. Ar sail ffigurau 2023-24, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol fydd £15,000, sy'n cyfateb i 0.25 arolygydd ychwanegol, a fydd yn gost gylchol ar ôl ei chyflwyno.

**Llywodraeth Cymru**

Ni ddisgwylir y bydd angen rhagor o gyllid i wrthbwyso costau ychwanegol opsiwn dau, gan fod y costau gweinyddu cyfredol yn ddigon i ddarparu ar gyfer nifer y gweithwyr i'w cofrestru. Fodd bynnag, mae'r costau a nodir uchod yn gostau sydd wedi'u hamcangyfrif at ddibenion enghreifftiol yn unig gan na allwn rag-weld nifer yr achosion. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddiwr i fonitro'r effeithiau posibl wrth i'r broses o gynyddu cofrestr y gweithlu ddatblygu, ac wrth i unrhyw gostau addasrwydd i ymarfer ychwanegol godi.

***Manteision sy'n gysylltiedig ag opsiwn dau:*** *Agor cofrestr y gweithlu fel bod gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn gallu cofrestru ar sail wirfoddol.*

Bydd cofrestru'r gweithlu gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn adeiladu ar y camau sydd wedi'u cymryd i broffesiynoli'r sector, sef amcan cyffredinol y gwaith. Mae'n anodd mesur manteision posibl cofrestru, ond mae'r manteision hyn yn cynnwys:

- Cynyddu ymddiriedaeth a hyder mewn gweithwyr gofal cymdeithasol ymysg defnyddwyr a'r cyhoedd;
- Gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, gan arwain o bosibl at wella boddhad gweithwyr yn eu swydd;
- Gallai gweithlu hapusach sy'n derbyn mwy o gymorth arwain at welliannau yn ansawdd y gofal;
- Drwy sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi a'i fod yn meddu ar y sgiliau priodol i wneud y gwaith, bydd modd darparu amddiffyniad a sicrwydd ychwanegol i ddefnyddwyr.

Yn ogystal, mae agor y gofrestr yn gynnar yn darparu digon o amser ac ymgysylltiad rhwng y gweithlu a'r rheoleiddiwr, a fydd yn helpu gweithwyr a chyflogwyr i ddeall y broses a'i manteision. Hefyd, bydd agor y gofrestr yn gynnar yn rhoi mwy o gyfle i nodi unrhyw broblemau posibl yn ymwneud ag adnoddau, a defnyddio unrhyw arferion gorau a ddysgwyd yn ystod y broses o gofrestru gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion.

Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y cynnig hefyd yn rhoi mwy o amser i weithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig ddeall beth mae'r broses yn ei olygu iddynt a sut i baratoi ar gyfer y broses. Gall y paratoadau helpu i egluro pob agwedd ar y broses gofrestru, gan gynnwys yr angen am ffioedd cofrestru a chymwysterau penodol, a allai fod yn newydd i lawer yn y sector. Gallai'r gwaith paratoi hwn hefyd egluro sut y bydd meddu ar set benodol o sgiliau neu gymwysterau yn helpu i roi sicrwydd i ddarpar gyflogwyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau bod y gweithiwr wedi cyrraedd y safon ofynnol i ddarparu gofal a chymorth.

Gall cyflogwyr ddewis defnyddio'r cyfle i gofrestru eu gweithlu yn gynnar fel arwydd o'u hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, neu i roi rhywfaint o sicrwydd i ddefnyddwyr bod gweithwyr wedi'u cofrestru ag GCC ac felly y byddant yn atebol os codir unrhyw amheuaeth am eu hymddygiad.

Hefyd, os codir amheuaeth am ymddygiad aelod o'r gweithlu, bydd modd rhoi sicrwydd iddo y byddai'n cael cyfle teg i amddiffyn ei hun gerbron panel o'i gymheiriaid. Hefyd, dylai'r broses gofrestru rymuso gweithwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu datblygiad personol eu hunain a manteisio ar gyfleoedd gyda GCC i ddatblygu eu sgiliau neu eu cymwysterau drwy ddilyn rhaglenni hyfforddi a datblygu amrywiol GCC, a sbarduno gwelliant parhaus yn ansawdd y gwasanaeth.

***Risgiau sy'n gysylltiedig ag opsiwn dau:*** *Agor cofrestr y gweithlu fel bod gweithwyr gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn gallu cofrestru ar sail wirfoddol.*

Mae yna berygl o hyd na fydd gweithwyr yn cofrestru nes bod dyddiad cau gorfodol yn cael ei gyflwyno, ond credir bod y perygl hwn yn cael ei liniaru'n sylweddol drwy agor y gofrestr ar gyfer cofrestru gwirfoddol.

Mae methu â bodloni'r gofynion a'r cymwysterau wrth gofrestru yn golygu bod rhai o'r gweithlu'n penderfynu bod y weithdrefn yn rhy feichus neu'n rhy gostus ac yn dewis

gadael y sector, gan roi mwy o bwysau ar y rhai sy'n weddill i ddarparu gwasanaethau, neu'n tanseilio gwasanaethau nes ei bod yn amhosibl eu darparu.

Mae cyfran fawr o weithwyr o'r farn nad yw'r gofyniad am gymwysterau yn rhywbeth y maent am ymgymryd ag ef a/neu fod ffioedd cofrestru yn rhy ddrud ac maent yn penderfynu gadael y sector. Gallai colli cyfran sylweddol o'r gweithlu am y rheswm nad ydynt yn dymuno ennill y cymwysterau gofynnol arwain at ganlyniadau dinistriol i'r sector gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.

Mae GCC yn rhoi nifer o gamau gweithredu ar waith ar hyn o bryd i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a gweithwyr er mwyn helpu i egluro'r broses, a sawl llwybr at gofrestru sy'n adlewyrchu'r ffaith fod rhai gweithwyr yn gallu dangos y sgiliau sydd ganddynt, ond mae'n bosibl nad oes ganddynt y cymwysterau priodol eisoes. Hefyd, mae hyn yn cynnwys ymestyn yr amser sydd gan weithwyr i ennill y cymwysterau perthnasol.

Er bod y sector yn ymwybodol o'r cynigion, mae'n debygol na fydd rhai yn y sector wedi ystyried y mater hwn ymhellach o gwbl neu wedi gohirio ymgysylltu â'r rheoleiddiwr gan fod 2026 yn ymddangos yn bell i ffwrdd. Gyda threigl amser, mae'n bosibl y bydd y mater hwn yn cael ei anghofio, felly mae GCC yn paratoi cynlluniau i gyflwyno ymarfer gwybodaeth arall ar gyfer y sector gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig sy'n debyg i'r ymarfer a ddefnyddiwyd ar gyfer y sector gofal cartref. Hyd yn oed wrth roi'r camau lliniaru ar waith, bydd angen ystyried yn ofalus y risgiau posibl sy'n deillio o fethu â sicrhau "ymrwymiad" y gweithlu i fanteision cofrestru. Bydd colli nifer sylweddol o'r gweithlu yn cael effaith fawr ar ddarparu gwasanaethau, ac ar y sector cyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i GCC er mwyn helpu â'r broses hon, ac mae wedi rhoi cyllid ychwanegol yn y flwyddyn ariannol flaenorol er mwyn talu am waith paratoi, gan gynnwys cyllid i helpu i gyflogi staff ac adnoddau ychwanegol i dalu costau cofrestru. Fodd bynnag, gallai nifer fawr o geisiadau cofrestru newydd, neu unrhyw oedi cyn prosesu'r ceisiadau hyn, gael effaith andwyol ar y rhai sy'n ceisio cofrestru yn nes at y dyddiad cau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rheoleiddiwr y gweithlu, GCC, i fonitro a rheoli'r broses i liniaru'r effeithiau a'r risgiau posibl hyn.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

Dim ond dau opsiwn sydd wedi cael eu hystyried – cadw'r status quo neu gyflwyno diwygiad. O dan opsiwn un, sef cadw'r system bresennol, ni fyddai'n ofynnol i'r gweithlu gofrestru â'r rheoleiddiwr tan y dyddiad gorfodol yn 2026. Fodd bynnag, heb i'r Rheoliadau arfaethedig hyn gael eu gwneud, ni allai GCC na'r gweithwyr hyn gydymffurfio â'r gofynion a nodir gan Reoliadau 2024.

Mae opsiwn dau yn ei gwneud yn ofynnol i GCC agor cofrestr ar wahân ar gyfer y gweithwyr hyn er mwyn caniatáu iddynt gofrestru cyn y dyddiad cofrestru gorfodol sef 30 Medi 2026, gan arwain at fanteision fel yr amlinellwyd. Er bod rhai risgiau cysylltiedig o hyd o ran gyfradd gofrestru, gellir rheoli'r rhain yn well gydag amser arweiniol hirach cyn y gofyniad cofrestru gorfodol arfaethedig. Yn wahanol i ymarferion cofrestru blaenorol, mae'r niferoedd yn sylweddol is ac er y gellir disgwyl y bydd rhai gweithwyr yn penderfynu gadael y cofrestru tan y funud olaf, neu'n methu â chofrestru mewn pryd ar gyfer cofrestru gorfodol, ni fyddai hyn yn esgor ar ganlyniadau difrifol i'r sector, y

rheoleiddiwr na Llywodraeth Cymru.  Gallai peidio â dechrau unrhyw fath o broses o gofrestru'r gweithlu arwain hefyd at system ddwy haen lle mae disgwyliadau uwch yn cael eu gosod ar y gweithwyr cofrestredig hynny o'u cymharu â'r rhai nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru. Gallai hyn effeithio ar safonau gofal ac ar allu gweithwyr i symud rhwng y ddau sector.

Felly, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

**Asesiad o'r Gystadleuaeth**

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1:** Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a fydd y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd â 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Na fyddant |
| **C4:** A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag ar eraill? | Na fyddent |
| **C5**: A yw’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid y nifer o gwmnïau neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7:** A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

Mae'r prawf hidlo yn dangos nad yw'n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth, felly ni chynhaliwyd asesiad manwl.

Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad o'r gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn unrhyw ffordd sylweddol.